Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 15 Hydref 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(155)v5

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** Ymhellach i drafodaethau cychwynnol â'i berchnogion, a wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch hyfywedd Unity Mine yn y dyfodol, yn dilyn cadarnhad ei fod wedi gwneud cais i fynd i ddwylo'r gweinyddwyr?

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynnig i ethol Aelod i Bwyllgor**

**NNDM5335 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol

Ann Jones (Llafur) yn aelod o’r Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog yn lle Ken Skates (Labour).

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cyflwyno'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Llwyddiant Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i Gyllido a Hwyluso'r Gwaith o Gyflogi 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol (30 munud)**

**5 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Bysiau Arriva Cymru (30 munud)**

**6 Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: “Gweithio gyda'n gilydd i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru - Adolygiad Cymru 2012-13” (60 munud)**

NDM5327 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adolygiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru ‘Cydweithio i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru’.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella safon ac argaeledd gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i annog dioddefwyr troseddau casineb a cham-drin domestig i roi gwybod am ddigwyddiadau o’r fath.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd o sicrhau bod aelodaeth byrddau’r

sector cyhoeddus yn adlewyrchu’r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn fwy cywir.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu polisïau i fynd i’r afael â stereoteipio ar sail rhyw mewn cyfleoedd gwaith o bob math.

**Dogfen Ategol**

Gellir gweld copi o’r adroddiad drwy'r linc a ganlyn:

http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/Welsh/wales_review_2013_welsh.pdf

**7 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2012-13 (60 munud)**

**NDM5326 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2012/13, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Medi 2013.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i atal cam-drin pobl hyn a mynd i’r afael â hyn, boed hwnnw'n gam-drin corfforol, emosiynol, seicolegol neu ariannol.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2012/13

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 16 Hydref 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10 Hydref 2013 i'w hateb ar 15 Hydref 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella addysg alwedigaethol? OAQ(4)1264(FM)

2. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb i bennu polisi'r llywodraeth? OAQ(4)1268(FM)

3. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi darpariaeth addysg yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1262(FM)

4. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr Adolygiad ar Ddarpariaeth Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru? OAQ(4)1274(FM)

5. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella amseroedd aros am driniaeth y GIG? OAQ(4)1261(FM)

6. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1275(FM)

**7. Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Pa gamau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cymryd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â recriwtio staff meddygol yn GIG Cymru? OAQ(4)1276(FM)

**8. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd Mynyddoedd Cambria i Gymru? OAQ(4)1266(FM)

**9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ymateb i gynlluniau arfaethedig Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gau canolfannau ymholiadau yng Nghymru? OAQ(4)1271(FM)

**10. Christine Chapman (Cwm Cynon)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau bach a chanolig yng Nghwm Cynon? OAQ(4)1267(FM)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i wneud Undebau Credyd Cymru yn gynaliadwy? OAQ(4)1263(FM)

**12. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i amddiffyn pobl rhag benthyca ar garreg drws a'r cyfraddau llog uchel sy'n gysylltiedig â hynny? OAQ(4)1260(FM)

**13. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i wella cyfleoedd economaidd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)1273(FM)

**14. Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru parthed masnachfraint rheilffyrdd Cymru yn 2018? OAQ(4)1269(FM)W

**15. David Rees (Aberafan)**: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer economi Aberafan dros weddill tymor y Pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)1277(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 22 Hydref a dydd Mercher 23 Hydref 2013

Toriad: Dydd Llun 28 Hydref 2013 - Dydd Sul 3 Tachwedd 2013

Dydd Mawrth 5 Tachwedd a dydd Mercher 6 Tachwedd 2013

Dydd Mawrth 12 Tachwedd a dydd Mercher 13 Tachwedd 2013

**********************************************************************

Dydd Mawrth 22 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad o'r Cwricwlwm ac Asesu (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: System Trafnidiaeth Integredig De Ddwyrain Cymru (30 munud)
- Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2012-2013 (60 munud)

Dydd Mercher 23 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)

- Cwestiynau i’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Cynnig i ddirymu Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 (30 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar yr Ymchwiliad i Addasiadau yn y Cartref (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Sefydlu Tîm Criced Cenedlaethol i Gymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer - Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 5 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Cynnydd o ran Troi Tai'n Gartrefi (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Teithio at Ddyfodol Gwell - Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Creu Cymwysterau Cymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y Cyfleoedd a'r Heriau y mae'r Sector Coedwigaeth yng Nghymru yn eu Hwynebu (30 munud)
- Dadl: Cymorth i'r Lluoedd Arfog yng Nghymru (60 munud)

Dydd Mercher 6 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i’r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Reoli Asedau yn y Sector Cyhoeddus (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 12 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Paratoadau ar gyfer Tywydd y Gaeaf (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru: Yr Ail Adroddiad (30 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (15 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol (15 munud)
- Dadl: Cynlluniau'r GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol i fod yn Barod ar gyfer y Gaeaf (60 munud)

Dydd Mercher 13 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Bresenoldeb ac Ymddygiad (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl fer - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed) (30 munud)